



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Cryfach gyda'n gilydd: rhannu adnoddau cyfieithu yng Nghymru

Arweinydd: Stefano Ghazzali

Gweithdy ar y cyd ag Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor

Y project rhannu adnoddau cyfieithu

Mae i adnoddau a thechnoleg cyfieithu ran allweddol yn uchelgais Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Fel rhan o'i strategaeth ar gyfer hyn, pwysleisia Llywodraeth Cymru yr angen am 'broffesiwn cyfieithu modern sy'n defnyddio technoleg ac adnoddau cyfieithu hyd yr eithaf'. Prif elfennau'r dechnoleg hon yw offer cof cyfieithu a chyfieithu peirianyddol, ill dau â'r potensial i arbed arian a gwella cynhyrchiant a chywirdeb cyfieithwyr dynol yn sylweddol.

Gyda chyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru, mae Prifysgol Bangor wrthi'n sefydlu llwyfan tymor hir ar gyfer casglu data oddi wrth gyrff cyhoeddus yng Nghymru ar ffurf cofion cyfieithu cyfocrog a thestunau perthnasol eraill, a gaiff eu hail ddsbarthu a'u rhannu, maes o law, gyda chyfieithwyr ac asiantaethau perthnasol eraill. Y bwriad yw denu cymaint â phosibl o gyrff cyhoeddus i gydweithio gyda Phrifysgol Bangor drwy rannu eu cofion cyfieithu a data perthnasol arall a chyfrannu at ddatblygu cyfieithu peirianyddol rhydd ac agored parth-benodol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Dilynwch y ddolen <https://cofion.techiaith.cymru> i weld y fersiwn cyntaf o'r llwyfan.

Defnyddir y data a gesglir hefyd i greu systemau cyfieithu peirianyddol pur, a modelau iaith ar gyfer datblygu technolegau eraill megis trawsgrifio lleferydd i destun. Un o'r targedau yw cyhoeddi'r system gyfieithu peirianyddol gyntaf ar gyfer y parth iechyd yng Nghymru erbyn Mawrth 2022.

Cynnwys y gweithdy

Bwriad y gweithdy hwn yw cyflwyno'r project Cofion Cyfieithu Agored Cymraeg Cenedlaethol cyntaf ac annog cyrff cyhoeddus i gefnogi'r project arloesol hwn trwy rannu eu cofion cyfieithu.

Bydd y gweithdy yn cynnwys 2 sesiwn o awr yr un: bydd yr un cyntaf yn un rhagarweiniol er mwyn cyflwyno'r project yn ei gyfanrwydd a'i werth i'r proffesiwn cyfieithu; a bydd yr ail un yn un ymarferol a fydd yn rhoi cyfarwyddyd manylach ynghylch sut y gall cyrff cyhoeddus gyfrannu at y project.

Bwriedir y gweithdy hwn ar gyfer penaethiaid unedau cyfieithu cyrff cyhoeddus a/neu gyfieithwyr sy'n gyfrifol am faterion technoleg eu hunedau.

Anogir pob un i fod yn bresennol yn y ddwy sesiwn.

Sesiwn 1

Bydd y sesiwn gyntaf yn un rhagarweiniol ac yn gyfle i rannu gwybodaeth am y project. Bydd cyfle i weld y llwyfan yn gweithio, a thrafod materion megis cyfrinachedd data, hawlfraint a materion trwyddedu; yn ogystal â thrafod syniadau a gofyn cwestiynau am y dechnoleg a'r project.

- Bydd llefydd i hyd at 30 yn y sesiwn gyntaf.

Sesiwn 2

Gan ddilyn ymlaen o'r sesiwn ragarweiniol, bydd yr ail sesiwn yn un mwy ymarferol ac yn canolbwyntio ar lwytho cofion cyfieithu i fyny i'r llwyfan newydd. Rhoddir sylw i'r materion hyn:

- Sut i baratoi eich cofion cyfieithu i'w hallforio
- Sut i anonymeiddio eich cof cyfieithu os yw'n cynnwys data personol
- Pa fetadata cof cyfieithu ddylech chi ei gynnwys
- Sut i lwytho eich cofion cyfieithu i fyny i'r system

Ar ddiwedd yr ail sesiwn bydd gan gyrff cyhoeddus well dealltwriaeth o'r gofynion technegol wrth rannu eu cofion cyfieithu trwy'r project arloesol hwn. Bydd yr Uned Technolegau Iaith yn gweithio'n unigol gyda'r cyrff hyn i'w helpu drwy'r broses o uwchlwytho'u cofion cyfieithu.

- Ni fyddwn yn cofrestru mwy na 10 ar y tro yn yr ail sesiwn.

Dyddiadau ac amseroedd y gweithdy

Cynhelir y gweithdy'n rhithwir trwy Microsoft Teams.

Bydd pob sesiwn yn awr o hyd ac yn dechrau am 11am.

Sesiwn 1: naill ai dydd Mawrth, 18 Ionawr 2022, neu ddydd Iau, 20 Ionawr 2022.

Sesiwn 2: dydd Mercher, 9 Chwefror 2022 / dydd Iau, 10 Chwefror 2022 / dydd Gwener, 11 Chwefror 2022.

Y dyddiad olaf i gofrestru fydd dydd Gwener, 14 Ionawr 2022.

Mae'r gweithdy'n rhad ac am ddim.

I gofrestru, llenwch y ffurflen gofrestru a'i hanfon i gweithdy@cyfieithwyr.cymru.